# Canolfan Llwynihirion
# Brynberian

# Eisteddfod Gadeiriol

**_Dydd Sadwrn, 21ain Chwefror, 2026_**

Drysau'n agored am 2.30 o'r gloch
i ddechrau'n brydlon am 3.00 o'r gloch

***************

***Llywydd:* Mrs Lilwen McAllister, Pontfaen**

***************

**Beirniaid:**

*Cerdd:* Mrs JESSICA ROBINSON CYNAN, Caerdydd

*Llên a Llefaru:* Mr ROCET ARWEL JONES, Aberystwyth

*Gwaith Plant a Thlws yr Ifanc:* Mr ALUN DAVIES, Trefdraeth

*Cyfeilydd:* Miss ANGHARAD JAMES, Llantood
Ffôn: 07772 725088
(Her unawdwyr i gysylltu gyda'r cyfeilydd ymlaen llaw)

*Arweinyddion:* Mrs Sandra Llewellyn, Mrs Awen Evans,
Mr Arwel Evans, Mrs Megan Davies a Miss Catrin Phillips

*********************************

Mynediad: **£4.00** Plant Ysgol: **£1.00**

**Lluniaeth ar werth**

Rhaglenni ar gael oddi wrth yr Ysgrifennydd,
Mrs Ceri Davies, Eisteddfa Fawr, Brynberian, Crymych SA41 3TP
Ffôn: 01239 891296 e-bost: eisteddfa@hotmail.co.uk

**_Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Bach Cymru_**

## *CYSTADLAETHAU LLEOL*
### *(cyfyngedig i blant ysgol Gynradd Eglwyswrw)*

1. Unawd Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1) Medal a £7 2) £5 3) £3
2. Llefaru Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1) Medal a £7 2) £5 3) £3
3. Unawd Blwyddyn 3 a 4. 1) Medal a £7 2) £5 3) £3
4. Llefaru Blwyddyn 3 a 4. 1) Medal a £7 2) £5 3)£3
5. Unawd Blwyddyn 5 a 6. 1) Medal.a £7. 2) £5. 3)£3
6. Llefaru Blwyddyn 5 a 6. 1) Medal a £7. 2) £5. 3) £3

## *CYSTADLAETHAU AGORED*

7. Unawd Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1) Medal a £7 2) £5 3) £3
8. Llefaru Blwyddyn 1 a 2 neu iau. 1) Medal a £7 2) £5 3) £3
9. Unawd Blwyddyn 3 a 4. 1) Medal a £7 2) £5 3) £3
10. Llefaru Blwyddyn 3 a 4 1) Medal a £7 2) £5 3)3
11.Unawd Blwyddyn 5 a 6. 1) Medal a £7 2) £5 3) £3
12. Llefaru Blwyddyn 5 a 6. 1) Medala £7 2) £5 3)£3
13. Deuawd dan 12 oed. 1) £10 2) £6 3) £4
14. Alaw Werin dan 12 oed. 1) £7 2) £5 3) £3
15. Unawd offeryn cerdd dan 12 oed. 1) £7 2) £5 3) £3
16. Cydadrodd dan 12 oed. 1) £8. 2) £6
17. Parti canu dan 12 oed. 1) £8 2) £6
18. Unawd Blwyddyn 7-9. 1) £10 2) £6 3) £4
19. Llefaru Blwyddyn 7-9. 1) £10 2) £6 3) £4
20. Unawd Blwyddyn 10-13. 1) £10 2) £6 3) £4
21. Llefaru Blwyddyn 10-13. 1) £10 2) £6 3) £4
22. Alaw Werin. Agored. 1) Cwpan Her a £15 2) £10 3) £5
23. Canu Emyn dan 18 oed. 1) £15 2) £10 3) £5
24. Unawd allan o Sioe Gerdd. Agored. 1) £20 2) £15 3) £10
25. Llefaru i ddysgwyr. Agored. 1) £15 2) £10 3) £5
26. Parti unsain i oedolion. 1) Cwpan Her a £10 2) £8
27. Parti cydadrodd i ddysgwyr. “Y Morgrugyn” gan Waldo Williams. Gwobr Goffa Waldo Williams. 1) £10 2) £8
28. Canu Emyn dros 18 oed. 1) Cwpan Her a £15 2) £10 3) £5

29. Darn heb atalnodi. 1) £15

30. Her Unawd dros 18 oed. 1) Cwpan Her a £40 2) £25 3) £15

31. Her Adroddiad dros 18 oed. 1) Cwpan Her a £40 2) £25 3) £15

32. Cydadrodd i Oedolion. Agored. 1) Cwpan Her a £10 2) £8

## *CYSTADLAETHAU ERAILL / DIGWYDDIADAU*

33. Cyfansoddi Tôn i'r geiriau isod. 1) £20.

Addolwn Di O Arglwydd
Am daenu hadau ffydd,
A rhannu gair o weddi
Am wanwyn trydydd dydd.

Diolchwn i Ti Arglwydd
Am gynnyrch yn ei bryd,
A maddau i'r holl ffermwyr
Ddilynodd bethau'r byd.

Diolchwn i Ti Arglwydd
Am leiniau hael i'r praidd,
O anfon archwaeth eto
Am faeth i hybu'r gwraidd.

Clodforwn Di O Arglwydd
Am gynnal ar y daith,
Y gobaith, er y gaeaf,
Am ffyniant wedi'r gwaith.

*Trefor Huw Jones*

34. Cystadleuaeth Perfformio Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2025-2026; Mewn Cymeriad.

Cyfle i unigolyn rhwng 16-25 oed i bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Perfformiad hyd at 5 munud wedi'i selio ar ddewis o sgriptiau. Am fwy o wybodaeth ewch i steddfota.cymru

*7.30 – Araith y Llywydd*
*8.00 – Seremoni Cadeirio'r Bardd.*
*(I'w cynnal mor agosed â phosib i'r amserau uchod)*

Tarian i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr adran gyfyngedig dan 12 oed.
Tarian i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr adran agored dan 18 oed.

## *LLENYDDIAETH A CHYFANSODDI I BLANT YSGOL*

35. Rhyddiaith Blwyddyn 2 ac iau: “Y Parti”
36. Rhyddiaith Blwyddyn 3 a 4 : “Colli dant”
37. Rhyddiaith Blwyddyn 5 a 6 : “Ffrind da”
38. Barddoniaeth Blwyddyn 2 ac iau : “Bwyd”
39. Barddoniaeth Blwyddyn 3 a 4: “Lliwiau”
40. Barddoniaeth Blwyddyn 5 a 6 : “Teithio”
41. Rhyddiaith Blwyddyn 7 : “Gêm”
42. Barddoniaeth Blwyddyn 7 : “Newid”
43. Rhyddiaith Blwyddyn 8 : “Arwr”
44. Barddoniaeth Blwyddyn 8 : “Cynefin”
45. Rhyddiaith Blwyddyn 9 : “Tegwch”
46. Barddoniaeth Blwyddyn 9 : “Ni a nhw”

*Gwobrau Ariannol: 1af, 2il a 3ydd*

*Y cyfansoddiadau uchod i fod yn nwylo’r Ysgrifennydd*
*erbyn 13eg Chwefror, 2026.*

# *LLENYDDIAETH*

47. Limrig: "Ar faes y garreg las eleni". 1) £10 2)£5
48. Brawddeg o'r gair "E-R-W-L-O-N". 1)£10 2)£5
49. Stori Fer neu Ysgrif. Agored. 1) £10 2)£5
50. Ffurfio pedair dihareb newydd. 1)£10 2)£5
51. Darn hyd at 200 o eiriau i ddysgwyr: "Fy niddordebau"
    Written piece up to 200 words for learners. "My interests"
    1)£10 2)£5
52. Telyneg: "Crwydro". 1) £15

**CYSTADLEUAETH Y GADAIR**

53. Cerdd gaeth neu rydd (neu ddilyniant o gerddi) heb fod dros 60 llinell ar y testun : "Cofio". Cadair fechan a £30
54. TLWS YR IFANC i rai dan 25 oed: Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf hyd at 2000 o eiriau. Mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Eisteddfodau Cymru bydd dau waith haeddiannol yn ogystal â'r enillydd yn cael eu cynnig i G E C ar gyfer Cystadleuaeth Tlws yr Ifanc i rai dan 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol (am fwy o wybodaeth gweler gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru).

    Gwobr: Cwpan Parhaus a £25.

*Y cyfansoddiadau Llenyddol i fod yn nwylo'r Ysgrifennydd erbyn 6ed Chwefror 2026.*
*Ffugenw yn unig (enw'r cystadleuydd yn yr amlen).*

## Amodau

1. Bydd barn y beirniaid yn derfynol.
2. Ni wobrwyir oni bydd teilyngdod.
3. Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol an unrhyw ddamweiniau na cholledion â all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.
4. Fydd gan y Pwyllgor hawl i newid trefn y cystadlaethau ar y llwyfan os bydd angen.
5. Ni chaniateir defnyddio'r un darn gan yr un cystadleuydd mewn cystadleuaeth wahanol
6. Atelir pris tocyn oni bydd y buddugol neu gynrychiolydd yn bresennol.
7. Cystadleuwyr yn Rhif 30 (Her Unawd dros 18) i gysylltu gyda'r cyfeilydd ymlaen llaw.

**Noddwyr 2025**

Cyngor Cymuned Eglwyswrw

Cyngor Cymuned Crymych

Cyngor Cymuned Nanhyfer

Cymdeithas Bro Waldo

Clebran

Ymddiriedolaeth Pantyfedwen

Noson Bingo (31/1/25)

Mrs Jennifer Ridiough

Mr Eirwyn George

Ken ac Eirianwen Thomas

Menter Iaith Sir Benfro

**Diolch hefyd i bawb sy'n cyfrannu at lwyddiant yr Eisteddfod yn flynyddol.**

# Eisteddfod Crymych

**28 CHWEFROR 2026**

*Ysgrifennydd:* **Mrs Ann Davies ✆ 01994 419268**
**a Mrs Awen Evans ✆ 01239 891637**

# Eisteddfod Maenclochog

**4 MAI 2026**

*Ysgrifennydd:* **Catrin Williams**

**✆ 01437 532431**

Argraffwyr E. L. Jones, Aberteifi (01239 612251)